1625

# Gwerthusiad Ardal Gadwraeth Bethesda




Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Gwynedd Archaeological Trust



**Bethesda yn edrych tua'r de-ddwyrain gyda Gerlan ar y chwith uchaf ac eglwys Coetmor yn y blaendir. Mae hyn yn dangos natur wasgaredig yr anheddiad, a sut mae wedi ei lunio o gyfres o bentrefi llai.**

# Gwerthusiad Ardal Gadwraeth Bethesda

Project Rhif G2675

Rhif yr Adroddiad 1625

Paratowyd i Gyngor Gwynedd

Mawrth 2022

Ysgrifennwyd gan Andrew Davidson a Joanna Davidson

**Cyhoeddwyd gan**
**Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd**
**Craig Beuno, Ffordd y Garth, Bangor, Gwynedd LL57 2RT**

Cadeirydd/ Chair — David Elis-Williams MA(Oxon), MSc, CPFA
Prif Archaeolegydd/ Chief Archaeologist — Andrew Davidson, BA, MCIfA, FSA

Mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd yn Gwmni Cyfyngedig (Rhif Cof. 1180515) ac yn Elusen (Rhif Cof. 508849)
Gwynedd Archaeological Trust is both a Limited Company (Reg No. 1180515) and a Charity (Reg No. 508849)

# Cynnwys


1 Cyflwyniad 6
    1.2 Cydnabyddiaeth

2 Hanes cefndirol 10
    2.2 Hanes y pentref

3 Cymeriad y dref 11
    3.1 Lleoliad
    3.2 Cymeriad
    3.3 Dynodiadau

4 Disgrifiad o'r Ardaloedd Cadwraeth 11
    4.1 Braichmelyn
    4.2 Lôn y Graig
    4.3 Rhes Gordon a Rhes Elfed

5 Gwelliannau a argymhellir 19

6 Newidiadau a argymhellir i'r Ardal Gadwraeth 20

7 Ffynonellau 26

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Cyflwyniad Cyffredinol

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys canlyniadau gwerthusiad y pedair Ardal Gadwraeth ym Methesda.  Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd (YAG) sydd wedi ymgymryd â'r gwaith ar ran Cyngor Gwynedd.


Mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn rhoi dyletswydd ar yr holl awdurdodau cynllunio lleol i benderfynu ar yr ardaloedd ble mae yn ddymunol eu cadw a'u gwella a'u dynodi fel ardaloedd cadwraeth.  Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi y dylai awdurdodau lleol adolygu eu gweithgareddau yn y gorffennol yn yr ardal yma gan ychwanegu mwy o gadwraeth ble fo'n briodol.

Mae'r gwerthusiad yn arfarnu'r ardaloedd cadwraeth presennol, yn darparu trosolwg o'u hanes, pensaernïaeth a'u cyflwr gan awgrymu argymhellion priodol.

## 1.2 Cydnabyddiaeth

Eryl Williams a Hannah Joyce, Cyngor Gwynedd, anogodd y prosiect, gan ddarparu cymorth hael a gwybodaeth i helpu gyda'r gwaith.  Cafwyd cymorth a chyngor caredig gan Dr John Llywelyn Williams yn ystod cyfnod y prosiect.


**01**
Ardaloedd cadwraeth ym Methesda




© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2012. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100021874.
© Crown Copyright and database right 2012. Ordnance Survey 100021874. Welsh Government.

**Delwedd 1**

**Ardaloedd Cadwraeth ym Methesda**




© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2012. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100021874.
© Crown Copyright and database right 2012. Ordnance Survey 100021874. Welsh Government.

Ffin yr ardal ychwanegol arfaethedig


Ffin yr ardal arfaethedig

Ardal gadwraeth bresennol

Adeilad Rhestredig

**Delwedd 2**

**Ardaloedd Cadwraeth Braichymelyn**




© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2012. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100021874.
© Crown Copyright and database right 2012. Ordnance Survey 100021874. Welsh Government.

0 60
metrau

Ffin yr ardal ychwanegol arfaethedig


Ffin yr ardal arfaethedig

Ardal gadwraeth bresennol

Adeilad Rhestredig

**Delwedd 3**

**Ardaloedd Cadwraeth Lôn y Graig**




© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2012. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100021874.
© Crown Copyright and database right 2012. Ordnance Survey 100021874. Welsh Government.

- - - - Ffin yr ardal ychwanegol arfaethedig

—— Ffin yr ardal arfaethedig

—— Ardal gadwraeth bresennol

✚ Adeilad Rhestredig

**Delwedd 4**

**Ardaloedd Cadwraeth**
**Rhes Gordon a Rhes Elfed**

# 2. Hanes cefndirol

Lleolir Bethesda yn Nyffryn Ogwen ar odrau bryniau gogleddol Eryri. Mae'r dref ar lan ddwyreiniol afon Ogwen, gan ddefnyddio tir gwastad cyfyngedig gwastatir yr afon gan ymestyn i fyny ochrau'r bryniau serth i'r dwyrain. Saif Chwarel y Penrhyn, sef y rheswm pam fod y dref yn bodoli, ar draws yr afon tua'r gorllewin. Roedd ail chwarel llai ei maint, Pantddreiniog, yn gweithredu o ardal sydd bellach wedi ei thirweddu yng nghyffiniau'r dref, i'r gogledd o'r canol.

Tyfodd ardal y dref yn gyflym o'i chnewyllyn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg gan ymgorffori aneddiadau llai Braichmelyn, Gerlan a'r Carneddi.

Mae tystiolaeth cynhanesyddol eang o anheddiad o amgylch Bethesda. Ar lethrau Moel Faban a Chwm Ffrydlas, Gern Wigau a Chwm Caseg, sy'n edrych dros y dref, mae olion o amaethu cynnar, olion carneddi claddu o'r Oes Efydd a thwmpathau llosg cynhanesyddol. Ceir sawl anheddiad tai crwn cynhanesyddol hwyr sydd wedi cadw'n dda ynghyd â systemau caeau cysylltiedig. Dilynwyd y rhain gan gytiau petryal canoloesol mwy diweddar a thai llwyfan. Yn fwy diweddar wedyn mae corlannau cellog mawr i ddefaid. Ychwanegwyd at yr economi yma ar sail amaethu o'r canol oesoedd ymlaen drwy waith llechi ar raddfa fechan, gan gludo'r llechi gan ferlod i Aberogwen. Roedd rhwydwaith o ffyrdd yn cysylltu'r ffermydd, yn aml yn gorfod croesi dros ryd a phont sawl afon a lifai i lawr ochr y mynydd. Croeswyd afon Ogwen ym Mhont y Tŵr.

Ehangodd y dref mewn ymateb i dwf y Chwarel o'r 1760au ymlaen. Dechreuodd o gnewyllyn bach gydag ychydig o fythynnod wedi eu gwasgaru ar hyd glan orllewinol afon Ogwen, a thyfodd yn ystod cyfnod o ehangu cyflym a sylweddol yn nifer y boblogaeth erbyn yr 1890au. Fe wnaeth isadeiledd yr ardal wella'n sylweddol pan adeiladwyd ffordd yr A5 (1815-20) ar hyd glan ddwyreiniol afon Ogwen gan greu canolbwynt amlwg i ddatblygiad y dref ac ychwanegwyd at hyn drwy agor llinell cangen rheilffordd Bethesda i deithwyr yn 1884.

Dechreuodd gwaith y chwarel ar raddfa fawr dan Farwn cyntaf y Penrhyn (1737-1808), yn ehangu yn chwim i ddod yn un o'r chwareli mwyaf a mwyaf dylanwadol yng ngogledd Cymru. Erbyn 1898 cyflogai'r chwarel 2809 o weithwyr, ac roeddent i gyd angen tai.

Yn ystod yr 1820au cafodd anheddiad cyfun Bethesda ei gydnabod, a'i enwi ar ôl y capel Annibynwyr ar ymyl y ffordd. Darparwyd tir o stad Cefn Faes oedd ochr yn ochr â'r ffordd newydd ar gyfer adeiladu ac fe'i prynwyd gan adeiladwyr, tafarnwyr, perchnogion siopau a chrefftwyr hapfasnachol. Adeiladwyd tai rhagorach Rhes Ogwen yn 1853 i ymateb i'r angen am dai i'r dosbarthiadau gweithwyr proffesiynol. Cafodd gweithwyr y chwarel eu gwthio ymhellach allan gan adael y Stryd Fawr i fasnachwyr, i ardaloedd gan gynnwys Stryd John a'r ddrysfa o lonydd bach oddi amgylch. Ar dir Stad y Penrhyn, gwelwyd datblygiad rhubannog o resdai unllawr ar hyd Braichmelyn a Chae'r Berllan a adeiladwyd erbyn 1840.

Yn 1854 sicrhaodd Deddf Gwella Bethesda bod tai newydd yn cael eu hadeiladu gyda draeniad digonol a chyflenwadau dŵr. Adeiladwyd llawer o'r rhesdai deulawr bach rhwng y dyddiad yma a'r 1890au. Roedd stad newydd y Gerlan a adeiladwyd yn 1864, ar gyn Fferm y Gerlan, yn rheolaidd ac wedi'i gosod allan yn dda. Galluogodd gymdeithasau adeiladu lleol oedd wedi eu sefydlu erbyn yr 1860au i weithwyr fod yn rhan o'r gwaith o brynu ac adeiladu eu bythynnod.

Un o'r datblygiadau olaf cyn i'r chwareli edwino yn yr 1900au oedd rhesdai Rhes Gordon a Rhes Elfed. Mae'r rhain yn nodi terfyn gogleddol y Stryd Fawr yn dilyn agor y rheilffordd i deithwyr yn 1884 ac yn cynnwys tai sylweddol i'r dosbarth canol.

Daeth y gwaith datblygu i derfyn ym Methesda yn 1900. Bu Chwarel y Penrhyn yn gweithio ar raddfa llai rhwng 1900 a 1903, oherwydd gwrthdaro hirfaith ynglŷn ag undeboli, ac wedi ail-agor y chwarel roedd wedi mynd yn llawer llai. Caeodd Chwarel Pantdreiniog yn 1911 a dirywiodd y boblogaeth fel y symudodd pobl i ffwrdd i edrych am waith.

Mae diwydiannau eraill wedi creu peth cyflogaeth yn ystod yr ugeinfed ganrif ac adeiladwyd y stadau tai cyngor newydd o'r 1930au ymlaen. Yn raddol datblygwyd y tir fferm gwastad i'r de o ganol y dref mewn arddull llai gwerinol.

# 3. Cymeriad y dref

Mae dau ffermdy Sioraidd, Abercaseg a Phant-Ffrydlas sydd wedi goroesi yn gwrthgyferbynnu gyda'r tai diweddarach mwy diwydiannol. Mae'r ddau yn dai deulawr, blaen dwbl gyda ffenestri codi.

Yn gyffredinol, roedd bythynnod y chwarelwyr o gyfnod cynharaf y datblygiad diwydiannol yn rai unllawr, wedi eu hadeiladu o gerrig wedi eu cloddio yn unigol, mewn parau neu fel ym Mraichmelyn, mewn llinell unedig. Mae'r rhes restredig yng Nghaerberllan yn cynnwys bythynnod unllawr, dwy ystafell gyda chanopi dros y drws o un slab llechen, wedi ei gynnal ar fracedi pren. Roedd y drysau yma yn rai pren, siliog a chleddyfog, ac mae rhai ohonynt yn ddrysau stabl. Yn fewnol, fe fyddai gan y bwthyn ddwy ystafell a chroglofft. Ceir mynediad i Gaerberllan o lwybr sy'n croesi o flaen y tai, gyda gerddi a siediau carreg ar ochr arall y llwybr. Roedd gan y ffenestri linteli o lechi bras neu o gerrig wedi'i cloddio gyda silff o lechi, yn aml gyda pharau o agoriadau casmentau tri phaen. Roedd y toeau bob amser yn llechi.

Roedd bythynnod chwarelwyr mwy diweddar yn fwy tebygol o fod yn rhai deulawr, dwy ystafell ar y gwaelod a dwy ar y llawr cyntaf, yn aml gyda gardd oedd yn ddigon mawr i dyfu llysiau. Er hynny, yn ardal boblog ddwys Brynteg, a adeiladwyd yn yr 1860au, roedd y lleiniau yn llawer llai. Mae amrywiaeth o bortshys i'w gweld drwy'r dref, gyda llawer yn defnyddio llechi a rhai yn dangos nodweddion artistig.

Cerrig wedi eu cloddio yw'r prif deunydd ddefnyddiwyd ar gyfer y tai, gyda cherrig caeau i waliau a strwythurau brasach a rhai adeiladau cynharach. Gan fod digonedd o lechi, dyma oedd y deunydd to a ddefnyddiwyd bron i gyd, defnyddiwyd slabiau ar gyfer canopïau drysau, slabiau mwy wedi eu hollti ar gyfer ffensys, llwybrau a grisiau. Defnyddiwyd llechi wedi'u llifio ar gyfer adeiladu portshys , pyst giatiau a silffoedd ffenestri. Mae brics yn fwy amlwg mewn adeiladau mwy diweddar ym mhen gogleddol y stryd fawr. Mae Capel Bethania yn arbennig o drawiadol, gyda brics coch Rhiwabon ac arwynebau tywodfaen.

Er bod y rhan fwyaf o fythynnod yn wreiddiol wedi eu gorffen gyda cherrig datgeledig nid yw'r un peth yn wir am ysgolion, adeiladau masnachol a chapeli. Yn aml, defnyddiwyd rendr neu chwipiad garw ac yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif daeth chwipiad gro yn orffeniad safonol.

Un o'r newidiadau amlycaf i gymeriad ardal yw newid defnydd neu ddymchwel ysgolion a chapeli. Mae capeli y Tabernacl a Siloam yng nghanol y dref, Salem ar Ffordd Carneddi, Treflys a Gerlan i gyd wedi cael eu dymchwel fel yr Ysgol Genedlaethol oedd yn wynebu'r stryd fawr. Mae capeli ysblennydd fel Bethesda, Capel Bethania a Capel Jeriwsalem yn parhau, ond gyda'r cynulleidfaoedd yn gostwng a chost atgyweirio yn codi mae eu dyfodol yn ansicr. Mae adeiladau rhestredig fel Eglwys Crist a ddyluniwyd gan T H Wyatt i'r Arglwydd Penrhyn yn 1855-6 ac er nad oes dim ohonynt mewn Ardal Gadwraeth, maent yn cael eu diogelu rhag datblygu ond ddim rhag dirywio.

# 4.0 Ardaloedd Cadwraeth

Mae gan Bethesda bedair ardal cadwraeth, i gyd wedi eu creu yn 1985. Mae'r rhain yn rhychwantu datblygiadau sy'n dyddio o lawer o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, y cynharaf yw Braichmelyn i'r gogledd ddwyrain ac wedyn ardal ganolog Lôn y Graig gyda Rhes Elfed a Rhes Gordon yn fwy diweddar yn y gogledd orllewin.

### 4.1 Braichymelyn

Saif yr anheddiad yma ar yr hen ffordd i Lanllechid mewn ardal oedd yn berchen i stad y Penrhyn. Dechreuodd y gwaith adeiladu yn 1840 ac mae'r bythynnod unllawr cynnar yn ffurfio cymeriad yr ardal hon. Gosodwyd y bythynnod mewn rhesi byr, ar yr ochr ddwyreiniol ac yn gyfochrog â'r ffordd, gan ddilyn ei llwybr troellog. Dwy ystafell gyda chroglofft yw'r adeiladwaith sylfaenol, ond mae'r mwyafrif wedi eu haddasu a'u hymestyn. Mae patrwm sylfaenol y bwthyn yn cynnwys drws gyda phortsh efo to o un slab llechi, wedi ei gynnal ar fracedi pren. Bob ochr roedd dwy ffenestr, gydag amryw yn gymesur ond rhai ddim. Mae mwyafrif y ffenestri wedi cael eu newid, neu o leiaf wedi colli y bariau gwydr mewnol. Ble fo ffurf y ffenestr wreiddiol yn parhau, yn aml maent wedi cael eu symleiddio i fod yn gasmentau dau baen sengl, mae hyn i'w weld yn gyfaddawd llwyddiannus, yn cadw'r siâp a'r meintiau gwreiddiol. Mewn rhai achosion, mae'r ffenestri newydd yn blastig, sy'n

ymwthiol pan fyddant yn wyn, ychydig yn llai os ydynt yn rai lliw, er hynny, mae ffenestri pren yn fwy cydnaws. Y drws mwyaf nodweddiadol ar y ffordd yw adeiladwaith syml siliog a chleddyfog gyda un paen hirsgwar. Mae'r nodweddion diweddarach yn cynnwys gwydr gorgywrain ac mae llawer yn blastig.

Mae'r toeau yn llechi gyda'r simneiau o frics efo dau gorn. Mae'r waliau yn gerrig wedi eu cloddio, yn wreiddiol yn ddatgeledig, ac er bod enghreifftiau o'r rhain o hyd, mae llawer wedi cael eu rendro, efo chwipiad gro neu wedi eu gwyngalchu.

Mae'r tai wedi'u gosod yn ôl o'r ffordd sy'n gadael iardiau ffrynt cul iawn gyda wal derfyn o gerrig. Mae'r gerddi blaen yn amrywio o ran dyfnder oherwydd trofeydd y ffordd ac mewn rhai achosion maent yn cynnwys grisiau i fyny at y drysau. Credir bod y waliau yn fwy diweddar na'r bythynnod. Mae lleiniau gerddi sylweddol yn arwain i fyny'r llethr tu ôl i'r bythynnod, at ochr y coetir, gyda llwybr troed sydd wedi cael cryn ddefnydd ar hyd y terfyn yma.

Mae llawer o fythynnod wedi cael eu haddasu mewn rhyw ffordd, ond mae'r stryd yn parhau i fod yn gydlynus, mae'r nifer fawr o ganopïau drws llechi a'r ddwy ffenestr olau yn helpu i gadw'r ansawdd yma. Ar y cyfan, mae'r estyniadau yn guddiedig o'r ffordd ac mae'r simneiau wedi cael eu cadw. .

Mae cydlyniant a bywiogrwydd yn perthyn i'r ffordd, er ei bod wedi ei haddasu cryn dipyn ac ychydig yn anhrefnus, yn rhannol oherwydd nifer y ceir sy'n parcio ar ffordd mor gul a throellog. Mae'n dioddef o felltith gweledol sawl ardal cadwraeth, gormod o finiau ailgylchu sy'n gorfod aros yn y gerddi ffrynt.

Mae'r ardal gadwraeth yn dechrau ar y gyffordd gyda Stryd Jâms gyda phâr hardd o fythynnod a adeiladwyd o gerrig nadd


5

efo talcen canolog deulawr a rennir. Ond mae'r edrychiad wedi ei difetha ychydig gan fod gan un ffenestri brown a'r llall rai gwyn. Cafodd y ffenestr talcen frown ei lleihau o bedwar paen i ddau, ac mae'r hyn sydd o'i hamgylch yn dew. *Delwedd 5*

Mae'r teras yn dechrau gyda grŵp unedig o bedwar bwthyn. Rhifau 7, 9, 11 ac 13 gyda llinell y toeau yn lefel. Mae ganddynt i gyd ganopïau drws sy'n cynnwys slab unigol a dwy ffenestr olau. Lleolir y bythynnod cyntaf yma ar gromlin yn y ffordd ac mae'r


6

gerddi ffrynt ar lefel uwch, gyda waliau blociau llechi o Rif 11. Mae'r grŵp yma'n dangos mwyafrif nodweddion y stryd ac maent i gyd yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae gwahanol liwiau'r ffenestri a'r drysau yn bywiogi'r strydlun. *Delwedd 6*

Mae llinell y toeau yn syrthio i Rif 14, yr olaf yn y rhes yma ac wedyn mae bwlch, a ddefnyddir i gadw biniau a pharcio.


7

Yn ddiweddar, ail-adeiladwyd wal yr ardd gan dynnu'r gornel i'w gwneud yn haws i barcio, gan golli darn mawr o'r ardd ffrynt. Fodd bynnag, mae wedi cael ei hail-adeiladu gan ddefnyddio'r deunyddiau gwreiddiol. *Delwedd 7*

Mae lefel y to yn disgyn i Rifau 18 ac 17 ac mae'r bythynnod nesaf ar wahân ac wedi eu gosod yn ôl ymhellach oddi wrth y ffordd

**5**
Bythynnod ar Stryd Jâms

**6**
Rhif 11 Stryd Jâms

**7**
Rhif 14 gyda wal yr ardd wedi ei hail-adeiladu.

8
Mae'r ardd flaen wedi ei throsi yn lle parcio, gyda ffenestri newydd annodweddiadol wedi eu gosod.

9
Mae gan Rhif 20 estyniad portsh ffrynt sy'n tynnu oddi wrth cymesuredd gwreiddiol yr adeilad.

10
Rhifau 35 i 36 gyda phortsh a ffenestri priodol.

11
Er bod y ffenestr chwith wedi cadw'r plastr oddi amgylch, mae'r gweddill wedi ei orchuddio gydag estyniadau amhriodol.

gyda gerddi ffrynt llawer mwy. Mae'r bwlch rhwng y ddau yn le parcio gyda cherrig




mân a man i gadw biniau. Ar yr ochr arall i'r bwlch mae gan y tŷ nesaf ffenestri latis ac yn anffodus iawn rhoddwyd pafin dros yr ardd ffrynt i barcio ceir. Mae Rhif 18 yn rhannu llinell y to, gyda blociau delltwaith concrid ar ben wal yr ardd. *Delwedd 8*

Mae lefel y to yn codi i Rif 19 sy'n ymd-




dangos i fod yn rhannol adfeiledig. Mae wal yr ardd wedi ei dymchwel yn rhannol. Mae gan Rhif 20 estyniad portsh ffrynt gyda drws ochr a ffenestr flaen. Mae hwn yn ymwthio ymlaen i'r ffordd. Mae gan yr eiddo yma, fel Rhif 21, estyniad cefn wedi ei godi. *Delwedd 9*

Mae hyn yn rhoi ansawdd igam-ogam annymunol i linell y to. Mae gan Rhif 21 chwipiad gro ac mae Rhif 23 yn cadw siâp y ffenestr, gwaith carreg datgeledig a chanopi drws.

Wedyn mae'r teras yn codi eto i Rif 25 sydd ag estyniad cefn o uchder dwbl, sy'n fwy gweladwy oherwydd y newid yn lefel y to. Mae Rhif 27 newydd osod ffenestri pedwar paen, ffenestri to bach ac ar hyn o bryd mae rhan o wal yr ardd wedi ei dymchwel.

Ceir llwybr mynediad bach rhwng Rhifau 27 a 29. Rhif 29 yw un o'r ychydig dai sydd wedi colli'r simnai ar y pen. Yn ddiweddar rhoddwyd canopi'r drws yn ôl gyda llechi sgolopiog yn hytrach nag un slab.




Mae llinell y to yn codi yn sydyn yma fel mae'r bryn yn mynd yn fwy serth. O Rif 31 ymlaen i Rif 36 cedwir cymeriad yr ardal gyda ffenestri o ansawdd da, drysau, canopïau a gerddi ffrynt â waliau cul iawn. Mae Rhifau 35 a 36 wedi cael eu huno yn un tŷ, fel y pâr nesaf efallai. *Delwedd 10*

Newidiwyd drws Rhif 36 gyda ffenestr. Mae Rhifau 37 a 39 wedi newid y to rhwng y ddwy elfen ac mae'r blaen wedi ei guddio gan lwyni wedi gordyfu. Daw'r rhan fwyaf serth ar ôl Rhif 41, tŷ arall sydd rhwng cael ei atgyweirio a mynd â'i ben iddo. Adeiladwyd y bwthyn yma ynghudd yn erbyn talcen tŷ uwch ac felly mae dwy simnai yma, ac yn ddiweddar cafodd y ffenestri a'r drysau eu newid gydag unedau pren derbyniol, ond mae'r portsh pren yn arbennig o ansad. Dymchwelwyd wal yr ardd gan adael teras bras wedi ei godi gyda ardal storio fawr i fin.

Yn ystod y misoedd diwethaf mae Rhif 43 wedi cael triniaeth anaddas iawn. Ychwanegwyd portsh gwydr, mawr gyda




mynediad ochr, yn hanner cerrig a hanner pren i'r blaen gyda math o sied o bren gwyrdd yn mynd dros y ffenestr ffrynt ar yr ochr dde. Mae'r ffenestr sy'n weddill wedi cadw'r plastr o'i hamgylch sydd wedi'i beintio'n ddu, ychwanegiad cynnar



12

nodweddiadol i lawer o'r bythynnod sydd ymhellach i fyny'r stryd. *Delwedd 11*

Yn ddiweddar peintiwyd Rhif 45 yn liw 'terracotta' gyda'r ffenestri pren a'r drws wedi eu peintio'n wyn. Cadwyd capan y drws. Efallai mai hwn yw'r unig ffasad sydd heb ei beintio'n wyn, ond nid yw allan o'i le oherwydd y sylw a roddwyd i'r manylion. *Delwedd 12*

Mae gan Rhif 46 agoriadau ffenestri mwy a phatrwm ffenestr anaddas. Er hynny, efallai mai'r nodwedd mwyaf pryderus yw bod hanner wal yr ardd wedi ei thynnu i wneud lle i finiau ailgylchu.

Mae gan Rhif 47 blaster wedi ei beintio'n las o amgylch y ffenestri a phortsh llechi diddorol ond gyda ffenestri plastig gwael. Mae'r portsh yn adlewyrchu'r un a adeilad-



13

wyd yn ddiweddar drws nesaf yn Rhif 48, ond fod gan hwn chwipiad gro. *Delwedd 13*

Yn y fan yma mae'r ffordd yn dechrau mynd ar i lawr gyda mwyafrif y bythynnod yn cadw patrwm y ffenestri a'r canopi drws ond yn aml gyda gorffeniad chwipiad gro. Yn Rhif 51 mae adeiladwaith did-dorol o baneli llechi mawr ar flaen yr ardd gyda giât haearn cynnar. Peintiwyd y rendr yn wyn. *Delwedd 14*

Yn Rhif 53 mae estyniad cefn deulawr sy'n ymestyn yn uwch na llinell y to, gyda ffenestri Velux. Mae'r ffenestri yn rhai



14

plastig anaddas, ychwanegwyd portsh mawr i'r ffrynt gyda'r adeilad i gyd â chwipiad gro.

Tan yn ddiweddar iawn roedd y ddau dŷ olaf yn yr ardal gadwraeth yn enghreifftiau nodedig ac mae Rhif 55 yn dal i fod felly, gyda gwaith carreg datgeledig, drws pren wedi ei gadw'n dda a ffenestri, giât wreiddiol a wal yr ardd heb ei newid. Er hynny, yn ddiweddar iawn mae Rhif 54 wedi tynnu'r canopi drws a'i newid gyda phortsh car-reg â thalcen trwm iawn. *Delwedd 15*

Cafwyd awgrymiad y dylid ymestyn yr ardal gadwraeth i gynnwys Stryd Jâms, sy'n dechrau gyda rhes o fythynnod unllawr



15

tebyg o ran dyddiad ar y chwith. Fodd bynnag, mae'r bythynnod yma wedi cael ei hymestyn yn arw, gan adael dim ond tri gyda'r nodweddion gwreiddiol. Mae'r tai wedyn yn newid i enghreifftiau deulawr mwy diweddar a wedyn tai o statws uwch sydd wedi eu gosod yn ôl o'r ffordd. .

Ym mhen pellaf yr Ardal Gadwraeth nid yw'r pâr o fythynnod, Rhifau 55 a 56, wedi eu cynnwys, maent wedi eu gosod yn ôl o'r ffordd gyda bwlch sylweddol rhyngddynt â'r rhes briodol ac maent wedi cael eu hymestyn yn yr ochrau ac yn y cefn. Tyn-nwyd dwy o'r tair simnai, ychwanegwyd ffenestri Velux, ac addasu'r ffenestri. Er hynny, mae gan y ddau bortshys llechi a gallai ychwanegu'r ddau i'r ardal gadwraeth

**12**
Rhif 45 wedi'i beintio'n lliw 'ter-racotta'.

**13**
Rhif 47 gyda phlaster o amgylch y ffenestri wedi goroesi, wedi'i beintio'n las bellach, sydd ddim yn edrych yn amhriodol.

**14**
Paneli llechi mawr gardd ffrynt Rhif 51.

**15**
Mae'r portsh talcen carreg yn anghydweddus gyda gweddill y rhes.

16
Rhifau 16 i 19 Braichmelyn gyda'r pyrth gwreiddiol

17
Cornel Braichmelyn a Stryd Gernant.

18
Stad Gernan gyda'r pyrth gwreiddiol

19
Rhifau 7 i 9 gyda'r tai pen yn ymestyn ymlaen.

roi peth gwarchodaeth i'r pâr yma o bortshys sydd wedi eu cadw'n dda.

Estyniad mwy priodol i'r ardal fyddai cynnwys stad Gernan ar ochr ogleddol Braichmelyn. Mae'r stad fach yma a adeiladwyd yn yr 1930au, yn cynnwys dau floc o bedwar ar Fraichmelyn, tri bloc o ddau ar Stryd Gernant a bloc uwch o dri yn edrych dros dir agored i'r gogledd orllewin. Cafodd gorffeniad y wal wreiddiol ei addasu i chwipiad gro yn y mwyafrif o achosion, ond mae'r pyrth plastr llyfn Art Deco yn parhau, yr un mawr canolog ar ddau floc Braichmelyn, yn cynnwys dau ddrws a choridor drwadd. Yn wreiddiol, roedd bandin plastr dau gam llydan llorweddol yn rhannu'r waliau, gyda rendr uwchben, a gwaith brics datgeledig oddi tanodd. Mae'r gorffeniad gwreiddiol yn dal yn ei le ar y tai pen o floc dwyreiniol Braichmelyn. *Delwedd* 16, 17

Mae toeau yr holl flociau yn dalcendoau.


16


18


19


17

Ar Stryd Gernan mae'r blociau yn fwy syml, gyda simnai ganolog, ffenestri fae talcendo a manylion drws. *Delwedd 18*

Mae'r bloc gogleddol orllewinol fymryn yn wahanol gyda thri thŷ, a'r tai bob pen yn ymestyn ymlaen. *Delwedd 19*

Nid oes unrhyw dai ar ôl y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ardaloedd Cadwraeth Bethesda a byddai'r grŵp bychan



20

Arddulliau cymysg ar Lôn y Graig

cynhwysol yma'n ychwanegiad teilwng.

### 4.2 Lôn y Graig
### Adwaenir hefyd fel Penygraig

Nodwedd hanfodol yr Ardal Gadwraeth yma yw natur anrheolaidd a throellog y lonydd a'r llwybrau. Mae Stryd John yn ffordd drwadd ganolog, sydd ddim yn hygyrch i draffig ac erbyn hyn gyda phafin. Mae'n cynnwys cymysgfa o dai unllawr a deulawr. *Delwedd 20*



21

Rhifau 10 ac 11 Stryd John



22

Rhifau 10 ac 11 Stryd John

Mae mwyafrif yr adeiladau wedi newid cryn dipyn ond mae pâr o dai deulawr, Rhifau 10 ac 11 Stryd John efallai yn rhan o glwstwr o systemau o dai ble cafodd pedwar tŷ eu hadeiladu gyda'i gilydd fel sgwâr cefn wrth gefn. Mae'r rhain wedi cadw eu ffenestri codi gwreiddiol, mae un tŷ wedi ei liwio a'r llall wedi ei wyngalchu.



23

Rhif 19 Rhes Gordon gyda ffenestr newydd fwy.

Mae'r ddau wedi eu rhestru. Defnyddiwyd Rhif 10, Bryn Salem fel Capel Mormoniaid yn yr 1840au. *Delwedd 21, 22*

Adeilad carreg mawr ar ochr orllewinol Stryd John ac ar y gyffordd gyda'r Grisiau Mawr, y rhes o risiau sy'n arwain i lawr i'r Stryd Fawr, heb ffenestri ar ddrychiadau deheuol a gorllewinol. Mae'r gwaith carreg datgeledig sy'n awgrymu gwreiddiau diwydiannol yr adeilad. *Delwedd 23*

Awgrymwyd y dylid ymestyn yr ardal yma i gynnwys rhan o'r Stryd Fawr sydd wedi cadw ffenestri Fictorianaidd hardd a blaen siopau. Pe byddai hyn yn cael ei ystyried

24
Rhes Tabernacl gyda safle'r cyn gapel bellach gyda thai arno i'r chwith.

yna gallai ardal ar wahân o'r Stryd Fawr fod yn fwy addas. Mae gwelliannau dechrau'r ugeifed ganrif wedi anghofio am Stryd Fawr Bethesda, oherwydd diffyg buddsoddiad. Fodd bynnag, gyda'r cwymp presennol yn economi'r stryd fawr drwy'r wlad, efallai mai nid nawr fyddai'r amser cywir.

Awgrymwyd hefyd y dylai ardal Tai Tabernacl fod yn estyniad i'r Ardal Gadwraeth bresennol. Mae hwn yn deras wedi ei godi i'r gogledd-ddwyrain o Stryd John ac wedi ei wahanu oddi wrtho gan grŵp o dai newydd a adeiladwyd ar safle Capel y Tabernacl. Mae ganddo linell to afreolaidd sy'n disgyn, gyda llwybr wedi ei godi o flaen lleiniau gardd bychain. Mae'r tir oddi tanodd wedi cael ei gloddio i ddarparu llwyfan gwastad i'r tai newydd. Mae ychydig o nodweddion gwreiddiol sydd wedi goroesi heblaw am waliau terfyn a'r ffensys gwaith haearn yr eiddo mwyaf dwyreiniol. I'r gogledd mae'r lleiniau cefn, mewn rhai achosion, wedi eu lleihau gan waith tirweddu tomeni Pantdreiniog. Mae'r diffyg nodweddion gwreiddiol, y cysylltiadau gweladwy a ffisegol rhwng y teras a Stryd John yn awgrymu nad yw yn ymgeisydd cryf i'w gynnwys. *Delwedd 24*

## 4.3 Rhes Gordon a Rhes Elfed

Mae'r ddwy Ardal Gadwraeth yma, rhesdai gyferbyn â'i gilydd naill ochr i ffordd yr A5 yn darparu addurn terfynol i ben gorllewinol y stryd fawr. Mae'r ardal yn cynnwys Rhes Gordon i'r de orllewin o'r A5, yn dyddio o'r 1885 a Rhes Elfed i'r gogledd ddwyrain, a adeiladwyd yn 1898. Anelwyd y rhesdai mwy uchel ael yma at y nifer gynyddol o drigolion dosbarth canol ac fe'i hadeiladwyd ar ôl agor yr orsaf reilffordd yn 1884, ac mae mewn safle da i fanteisio ar y gwasanaeth newydd i deithwyr.




### 4.3.1 Rhes Gordon

Mae Rhes Gordon, yn rhes o dai a nodweddir gan feranda parhaus wedi ei chynnal gan byst haearn bwrw wedi eu haddurno gan fracedi spandrel. Bob pen mae bloc mwy sy'n cynnwys dau dŷ, gydag asgell yn ymestyn allan yn cynnwys dwy ffenestr godi sy'n wynebu ymlaen, ychwanegwyd portsh i'r un mwyaf gogleddol o dan y feranda, mae'n debyg yn nechrau'r ugeinfed ganrif, ac mae yma is-lawr. Adeiladwyd y teras o gerrig rwbel mewn patrwm pafin clytiau gydag arwynebau brics coch. Mae'r tai wedi'u gosod yn ôl o'r ffordd gan erddi ffrynt cul petryal wedi eu gwahanu




25
Rhes Gordon yn edrych tua'r de-ddwyrain.



26
Rhes Gordon yn edrych tua'r gogledd-orllewin.



27
Rhif 19 Rhes Gordon gyda ffenestr newydd fwy.

gan gymysgedd o waliau brics a rheiliau haearn. Mae'r waliau ffrynt o gerrig wedi eu gosod mewn haenau breision ac ar eu pen mae rheiliau haearn wedi eu llunio'n dda â giatiau i gyd-fynd. Delweddau 21, 22, 23

Mae gan bob tŷ ffenestr fae i'r dde a drws i'r chwith, gyda ffenestri codi pedair paen ar y llawr cyntaf, gyda'r un uwchben y drws fymryn yn gulach. Mae'r to llechi yn ddi-dor ar lefel gwastad gyda phatrwm rheolaidd o un simnai i bob eiddo.
Mae cymeriad y cyfan wedi ei gadw yn gymharol dda, ond mae gan ddau eiddo bellach ffenestri gwyn UPVC. Yn anffodus, mae'r pâr yn y pen gogleddol wedi cael eu newid yn sylweddol. Mae'r linteri brics uwchben y ffenestri ar yr asgell sy'n ymwthio allan wedi cael eu newid a'r agoriadau wedi cael eu lledu. Mae'r ffenestr ei hun wedi ei newid gydag uned UPVC anghydweddol ac wedi cael ei gosod yn rhy bell ymlaen yn y ciliau ac mae'r eiddo yma'n un o chwech sydd wedi peintio'r wynebau brics yn wyn. Mae'r drysau wedi cael eu newid ac er eu bod i gyd yn wahanol, mae'r lliw du wedi cael ei gadw.

#### 4.3.2 Rhes Elfed

Mae'r rhes yma i'r gogledd orllewin o'r A5 ac fe'i adeiladwyd yn 1898 ac mae'n cynnwys tai deulawr plaen gydag asgell cefn a rennir rhwng dau eiddo. Erbyn hyn mae gan y waliau chwipiad gro ond yn wreiddiol mae'n debyg eu bod yn gastin garw, gyda llinfwrdd plastr llorweddol canolog. Mae

**28**
Rhes Elfed yn edrych i'r de-ddwyrain gyda Capel Bethania tu hwnt.

**29**
Rhes Elfed.







plac ar ganol y rhes sy'n nodi'r enw a'r dyddiad â phlastr wedi'i siapio o'i amgylch, sy'n cydweddu gyda'r llinfwrdd o ran arddull a maint. Ac eithrio'r manylion cynnil yma, mae'r rhes yn eithaf plaen. Yn wreiddiol byddai'r ffenestri wedi bod yn ffenestri codi pedwar paen, ac maent i gyd wedi cael eu newid. Mae gan bob tŷ iard ffrynt gul gyda wal isel chwipiad gro a llechi ar ei brig ynghyd â rheiliau addurnedig wedi eu gosod yn y llechi. Roedd llwybr byr a grisiau llechi yn arwain i fyny at y drws ffrynt. Gellir gweld ffenestr uwchben y drws yn y mwyafrif o'r tai er bod yr holl ddrysau wedi eu newid gyda rhai modern UPVC. Mae'r gerddi cefn yn gymedrol eu maint. *Delweddau 28, 29*

## 5.0 Gwelliannau a argymhellir

Mae amryw o drigolion mewn ardaloedd cadwraeth sydd ddim yn ymwybodol eu bod yn byw mewn ardal o'r fath. Mae'n ymddangos mai ychydig neu ddim gohebiaeth a fu gyda'r trigolion ers sefydlu'r ardaloedd ac yn aml nid yw gohebiaeth gynnar wedi ei throsglwyddo i'r perchnogion mwy diweddar. Gallai hyn fod wedi cyfrannu at fyrdd o estyniadau anffodus, ffenestri a drysau amhriodol a diffyg dealltwriaeth am gymeriad hanfodol yr ardal. Bydd Ardal Gadwraeth yn gweithio yn fwyaf effeithiol os yw'r trigolion yn parhau i gael gwybod am ei bodolaeth a'u cyfrifoldebau. Yn ystod adeg ysgrifennu'r adroddiad mae newidiadau wedi digwydd sy'n anghydnaws â chymeriad yr ardal.

Mae cyfranogiad y gymuned yn allweddol i lwyddiant ardal gadwraeth ac ar hyn o bryd mae hyn yn ddiffygiol. Dylai'r perchnogion fod yn ymwybodol o'r canllawiau sy'n rhoi arweiniad clir ar beth sy'n dderbyniol mewn ardal gadwraeth, yn enwedig i ddrysau a ffenestri. Yn y rhan fwyaf o achosion roedd y ffenestri wedi eu haddasu cyn i'r ardal gael ei dynodi ond ers hynny mae llawer o'r ffenestri yma wedi eu newid, yn aml sawl gwaith. Mae hwn yn gyfle i hysbysu perchnogion eiddo am fathau amgen mwy derbyniol. Mae mwyafrif y ffenestri bellach yn rhai plastig ond mae'r fersiynau lliw yn llai ymwthiol na'r rhai gwyn ac mae'r rhai sydd o'r un maint a threfniant â'r ffenestri gwreiddiol yn gymharol dderbyniol, ond nid yw mwyafrif y perchnogion yn ymwybodol am arwyddocâd eu dewisiadau.

Gyda'r gerddi ffrynt o faint bach, yn enwedig ym Mraichmelyn, mewn blynyddoedd diweddar mae'r strydlun wedi ei dominyddu gan liw, maint a nfer y biniau ailgylchu. Dylai system o finiau canolog fod yn bosib, byddai hyn yn gwella'r strydlun, yn arbed arian ac yn defnyddio llai o blastig. Dylid diogelu waliau gerddi ac ni ddylid eu tynnu i wneud lle i barcio ac i gadw biniau fod yn rhan o'r broses gynllunio.

Mae gan barcio, biniau, trydan a'r seilwaith ffonau i gyd effaith ar yr ardal ond heb ganllawiau cynllunio cryf a chyfathrebu ni all y cynllun cyfan gyflawni ei fwriad. Efallai y byddai yn amserol adolygu'r canllaw a sut y gellid ei ddosbarthu a'i annog.

# 6.0 Newidiadau a argymhellir i'r Ardaloedd Cadwraeth

## 6.1 Penybryn

Mae gan Penybryn sawl nodwedd sy'n ei gwneud yn arbennig o addas i'w dynodi fel ardal gadwraeth. Mae yn stad wedi ei chynllunio, prosiect uchelgeisiol gan Farwn cyntaf Penrhyn, wedi ei adeiladu fel ffurf gynnar o bentref gardd yn codi ansawdd tai Bethesda a darparu llety i'r dosbarthiadau lled-broffesiynol. Mae'n darparu gwrthgyferbyniad gyda'r rhesdai cyfyng a adeiladwyd o amgylch chwarel Pantdreiniog a'r tomenni llechi gormesol. Mae'r stad yn dechrau uwchben rhes Tabernacl, yn ymestyn i fyny Ffordd Penybryn at y gyffordd gyda Ffordd Ffrydlas, gan wedyn ymestyn i raddau sydd heb ei ddiffinio cystal i lawr Stryd Cefnfaes. Mae Cefn y Bryn, yn cynnwys yr ysgol, mae Ysgol Pen y Bryn yn hanfodol ac yn lleihau i lwybr braf gan adael ar Pant Glas.

Mae'r tai a ddyluniwyd yn ofalus sy'n esgyn Ffordd Pen y Bryn ar bob ochr i'r ffordd yn gymysgfa o resdai ac yn nes ymlaen blociau o ddau, wedi eu hadeiladu o flociau o gerrig nadd, gyda'r mwyafrif heb gael chwipiad gro. Mae'r portshys ar rai o'r tai gyda tho un rhediad a strwythur pren agored, mae gan eraill dalcendoeau. *Delwedd 30*

Gallai'r rhain fod yn nodwedd wreiddiol, ond adeiladwyd llawer o dai heb bortshys. Mae'r tai wedi eu gosod allan yn dda gyda gerddi mawr yn y cefn. Ceir llwybr troed efo waliau llechi, sy'n mynd drwadd o'r lôn sy'n ymylu â chwarel Pantddreiniog ac yn mynd heibio ar hyd cyntedd gyda tho llechi gan ddod allan ar Ffordd Pen y Bryn. *Delwedd 31*


30

Mae'r gerddi sylweddol yn y cefn yn hynod o bwysig i weledigaeth wreiddiol y stad, maent yn weladwy iawn o'r llwybr ar lefel uwch sy'n ffurfio pen deheuol Stryd Cefnfaes a rhwng y tai wrth gerdded i fyny'r bryn. Dylid eu diogelu rhag cael eu ddatblygu, fel y dylai'r bylchau a ddyluniwyd rhwng y tai. Delwedd 32

Mae rhifau 18-16 wedi'u rhestru. Disgrifir Rhif 18 fel annedd gyda drws pum panel gyda ffenestr uwch ei ben gyda wal flaen wreiddiol o lechi a phedwar piler, gyda rheiliau haearn ar ei phen a giât haearn. Er hynny, ymddengys fod y drws a'r ffenestri yma wedi eu newid


31

**30**
Rhifau 4 i 6 Penybryn gyda phortshys a linteri llechi i ffenestri'r llawr gwaelod.

**31**
Pasej rhwng Rhifau 13 ac 14 Penybryn.

**32**
Gerddi ym Mheny-bryn

**33**
Rhifau 16 i 18 Ffordd Penybryn

**34**
Llwyn Onn lle treuliodd Caradog Pritchard ei blentyn-dod.

**35**
Mae Rhifau 27 a 28 wedi eu gosod ar ongl sgwâr i Gefn y Bryn.

gyda UPVC ac mae'r waliau wedi cael eu hail-bwyntio mewn modd sydd wedi codi a thewychu yn ormodol. *Delwedd 33*

Ymhellach i fyny'r bryn, ar y chwith, mae Llwyn Onn, tŷ ar wahân mwy yn yr un arddull. Mae gan hwn bellach blac am yr awdur Caradog Pritchard a dreuliodd ei blentyndod yn y tŷ yma. *Delwedd 34*


32


33


34

Tuag at ben y bryn y gellir cael mynediad iddo drwy Gefn y Bryn mae pâr o dai ar ongl sgwâr ac ar lefel is na'r bryn. Mae'r newid mewn cyfeiriad yn rhoi cymeriad i'r strydlun gan y gellir gweld cip ar y tai yma oddi fry, drwy erddi aeddfed. *Delwedd 35*


35

Ffordd Pen y Bryn uwchben y gylchfan, bob ochr i'r ffordd, yw calon y datblygiad. *Delwedd 36*

Dan y gylchfan mae cymysgfa o eiddo hŷn sy'n perthyn i stad Pen y bryn ar ochr ogleddol y rhan mewn-lenwi diweddarach yn yr ugeinfed ganrif.

O amgylch y gylchfan mae sawl adeilad o ddiddordeb, yn enwedig y tŷ mawr Fictorianaidd a gyflwynwyd yn dda, Ivy Villa, sydd â ffenestri codi o hyd, portsh gwreiddiol a rheiliau. *Delwedd 37*

Mae'r stad yn parhau mewn patrwm mwy agored i fyny ochr ogleddol Pant Glas. Byddai cynnwys hwn wedyn yn awgrymu cwmpasu un o gapeli mwyaf y dref, Capel Jeriwsalem, adeiladwyd yn 1842 gan T Evans o Fangor a'i ail-fodelu yn 1872-5 gan Richard Davies. Mae tir y capel yn ffinio gyda Phant Glas i'r gogledd, y brif fynedfa o'r stryd fawr. Mae'r capel yn sefyll yn ôl o'r ffordd tu ôl i'r gofeb rhyfel, mewn parc bach deniadol. Gellir cael mynediad i'r festri sydd ar ochr y capel i lawr cul-de-sac bach deniadol. *Delwedd 38, 39*

Yn agos ato mae Eglwys Crist, adeiladwyd yn 1855-6 a'i dylunio gan T H Wyatt i'r Arglwydd Penrhyn. Mae yn eglwys sylweddol yn yr arddull Addurnedig Cynnar, mae ganddi dwr mawr a meindwr. Mae'r fynwent yn eang ac ar hyn o bryd wedi gordyfu braidd, ond dyma un o'r mannau agored pwysicaf yng nghanol y dref, wedi ei ffinio i'r gogledd

gan res di-dor o goed yw gan ymestyn i lawr i'r stryd fawr. Mae'r fynedfa wedi ei marcio gan waliau carreg coeth wedi eu siapio gan grymu gyda physt giatiau a gwaith haearn gwreiddiol yn arwain drwy rodfa o goed.

Mae dau gynnig ar gyfer creu Ardal Gadwraeth Penybryn. Yr ardal leiaf ei maint fyddai Ffordd Pen y Bryn uwchben y gylchfan gan gynnwys bob ochr i'r ffordd. Byddai'r cynllun mwy eang yn cyn-nwys Pant Glas, yr Eglwys a Chapel Jeriwsalem, er budd y gymuned.


36

## 6.2 Gerlan

Mae ardal Gerlan yn ymgeisydd da ar gyfer ardal gadwraeth, cafodd ei disgrifio fel pentref enghreifftiol (model village) a'i adeiladu yn dilyn Deddf Gwella Bethesda yn


37


38


39

36
Pen y Bryn i'r gogledd o gyffordd y gylchfan gyda Ffordd Pant Glas

37
Ivy House, Pen y Bryn.

38
Ffordd Pant Glas yn y pen gorllewinol yn edrych tua'r dwyrain. Capel Jeriwsalem ar y dde.

39
Ffordd Pant Glas gyda'r fynwent ar y dde.





© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2012. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100021874.
© Crown Copyright and database right 2012. Ordnance Survey 100021874. Welsh Government.

- - - - Ffin yr ardal ychwanegol arfaethedig
—— Ffin yr ardal arfaethedig
—— Ardal gadwraeth bresennol
✚ Adeilad Rhestredig

**Delwedd 40**

**Ardal Gadwraeth Arfaethedig ym Mhenybryn**




© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2012. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100021874.
© Crown Copyright and database right 2012. Ordnance Survey 100021874. Welsh Government.

- - - - Ffin yr ardal ychwanegol arfaethedig
— Ffin yr ardal arfaethedig
— Ardal gadwraeth bresennol
✚ Adeilad Rhestredig

**Delwedd 41**

**Ardal Gadwraeth Arfaethedig Gerlan**

42
Postyn giât fferm Gerlan

43
Cyn ffynnon ar Ffordd Gerlan i'r de-ddwyrain o Stryd Goronwy.

44
Dau bortsh llechi ar dai gyfagos a giât wreiddiol yr ardd.

1854. Adeiladwyd yr ardal mewn patrwm cydlynol roedd modd ei adnabod, i safon uchel o waith adeiladu ac mae'r patrwm yma wedi goroesi mwy neu lai heb ei newid. Roedd y pentref hyderus hwn oedd wedi'i adeladu yn dda yn cynnwys cyfres o resdai o dai deulawr ar onglau sgwâr i ddwy ffordd ganolog, Stryd y Ffynnon a Stryd Goronwy sy'n mynd i lawr y bryn yn sydyn. Roedd y graddiant yn penderfynu ar y gosodiad gyda llwybrau mynediad wedi eu lefelu i'r llethr yn y rhan fwyaf o achosion uwchben y tai ond weithiau, fel yn achos rhan dwyreiniol Rhif 2 Stryd Goronwy, o flaen y rhesdai gyda llwybr bach wedi'i dorri i fewn i ochr y bryn tu ôl. O dan y llwybr mynediad yma mae tai glo a adeiladwyd o fewn y llethr gyda'r toeau ychydig uwchben y llwybr. Yn aml is-rannwyd y lleiniau gardd main ar lethr llym yn derasau gwastad.

Cafodd ei ddatblygu o 1865 ar y daliadau a adwaenir fel Ciltreflys a Cae Ronw oedd yn cynnwys hen Fferm Gerlan. Mae postyn giât mawr o garreg sy'n perthyn i'r fferm gynharach yma yn dal i fodoli ar Ffordd Gerlan. *Delwedd 42*

Galluogodd gymdeithasau adeiladu lleol a sefydlwyd erbyn yr 1860au i weithwyr fod yn rhan o'r gwaith o brynu ac adeiladu eu bythynnod.

Yn 1890 roedd y pentref yn anheddiad cryno oedd gan fwyaf yn hunan-gynhaliol gyda nifer fawr o siopau a masnach ac un o'r ychydig o dafarndai oedd ddim ar Stryd Fawr Bethesda. Roedd yno hefyd dau gapel ac ysgol.

Y newidiadau mwyaf yn y pentref yn y blynyddoedd diwethaf fu dymchwel y capeli a throsi'r ysgol yn adeilad preswyl. Mae'r parc chwarae ar ben uchaf Stryd Goronwy yn dangos lleoliad capel Treflys. Mae sawl mynediad i'r rhesdai yn aneglur oherwydd bod estyniadau wedi eu hadeiladu gydag ond Rhif 2 Stryd Goronwy wedi cadw'r fynedfa isaf i'r rhan deheuol. Ceir mynediad bellach i fwyafrif y rhesdai o'r gogledd.

Mae'r boblogaeth wedi newid, mae llawer o'r trigolion yn ifanc, cymysgfa o deuluoedd lleol gyda rhai cyn fyfyrwyr o Brifysgol Bangor, yn byw mewn cyfuniad o gartrefi cychwynnol ac ar rent sy'n creu diwylliant gwahanol, ond er hynny yn un bywiog. Yn anffodus, mae'r patrwm cymdeithasol yma mewn perygl o gael ei danseilio gan pa mor rhad yn gymharol yw'r tai sy'n eu gwneud yn ddeniadol i berchnogion ail gartrefi.

Mae'r nodweddion pensaernïol gwreiddiol gan fwyaf wedi diflannu, gyda ffenestri a drysau wedi eu newid a mwyafrif y tai wedi eu hymestyn. Fodd bynnag, mae rhai nodweddion gwreiddiol wedi goresgyn. Mae ffynnon adeiladwyd o gerrig wedi goroesi i'r de-ddwyrain o Stryd Goronwy. Mae dau bortsh llechi a giât gywrain yn parhau ar Rif 2 Stryd Goronwy. *Delwedd 43, 44*

Ar waelod Stryd Gornowy mae cyfres o lwybrau troed sy'n mynd drwy dir agored,



42



43



44

gyda ffensys llechi (crawiau) ar y gwaelod ble mae'r llwybr yn ymuno â Ffordd Abercaseg. Mae'r tir mewn perchnogaeth breifat ond yn cael ei ddefnyddio gan y gymuned yn rhannol i gael mynediad i'r pyllau nofio poblogaidd yn afon Caseg. Yn ddiweddar cafodd y llwybrau arwyneb tarmac trwchus a thynnwyd a difrodwyd y ffensys llechi tuag at Gwernydd ar ymyl de-ddwyrain y tir agored. *Delwedd 45*

Gallai'r ardal gadwraeth arfaethedig gael ei ffinio gan Ffordd Gerlan i'r gogledd a'r gogledd ddwyrain, i fyny at y groesffordd gyda Phen y Clwt ble gallai'r terfyn ddilyn y ffordd fach pengaead i'r gorllewin. Nid oes ffens ar weddill y terfyn sy'n dir heb ei ddatblygu y gellid ei gynnwys hyd at afon Caseg i'r de, gan ymylu â'r tai i'r gorllewin. Nid yw gweddill yr ardal i'r gogledd a'r gogledd orllewin wedi ei diffinio cystal, gyda darn mawr o dir agored wedi ei ffinio gan Ffordd Abercaseg a phen Stryd Treflys. Gellid cynnwys hyn i gyd, fel arall gellid tynnu llinell o amgylch pen bob un a rifwyd ar Stryd y Ffynnon.

# 7.0 Cyfeiriadau


Haslam, R., Orbach, J., Voelcher, A., 2009 *The Buildings of Wales: Gwynedd.*

Hayman, R., 2017 *Bethesda. An Urban Character Study for Gwynedd Council*, 2017

Lowe, J., 1989, *Welsh Industrial Workers Housing 1775-1875*

John Ll. Williams and Lowri W. Williams, Hanes Dyffryn Ogwen Website https://hanesdyffrynogwen.wordpress.com/




**45**
Tir agored i'r de-orllewin o Stryd Gornonwy.